**Rhif: WG39469**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad - Crynodeb o'r Ymatebion

# Ardrethi Annomestig

Peiriannau Rhifo Awtomatig (ATMau) a Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yng Nghymru

Tachwedd 2019

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83933-559-4

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynigion

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Manylion Cyswllt

Cangen Polisïau Cyfraddau Annomestig
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LocalTaxationPolicy@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Caiff yr adroddiad cryno hwn a chopïau o holl ymatebion yr ymgynghoriad eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Dogfennau Cysylltiedig

Dolen at y ddogfen ymgynghori: https://llyw.cymru/gorchymyn-ardrethu-annomestig-rhyddhad-ardrethi-i-fusnesau-bach-cymru-diwygio-2019?_ga=2.263910476.1353230046.1574335442-275369678.1569850781

# Peiriannau Rhifo Awtomatig (ATMau) a Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yng Nghymru (SBRR)

Rhagarweiniad .......... 2

Ymgysylltu .......... 3

Trosolwg o Ymatebion .......... 3

Crynodeb o Ymatebion .......... 3

Camau Nesaf .......... 5

Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr .......... 6

# Peiriannau Rhifo Awtomatig (ATMau) a Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yng Nghymru

## Rhagarweiniad

1. Mae ardrethi annomestig yn berthnasol i ran fwyaf o fathau o eiddo annomestig.  Mae hyn yn cynnwys defnydd fel parcio, hawliau hysbysebu, mastiau telegyfathrebu ag ATMau.

2. Mae SBRR, fel y mae'n gweithredu yng Nghymru, yn eithrio mathau penodol o eiddo rhag bod yn gymwys oherwydd nad ydynt yn 'fusnesau bach' yn yr ystyr y bwriedir i'r rhyddhad ei gefnogi. Mae'r eithriadau yn cynnwys meysydd parcio, hawliau hysbysebu (e.e. posteri hysbysebu) ac offer cyfathrebu electronig (ECA).  Mae eithrio ECA yn bwriadu cynnwys ystod eang o offer, gan gynnwys ATMau.

3. Mae darpariaethau i eithrio ECA wedi'u cynnwys yn y cynllun SBRR cyfredol, drwy'r Gorchymyn Ardrethi Annomestig (Rhyddhad Busnesau Bach) (Cymru) 2017 (Gorchymyn 2017).  Mae'r canllawiau SBRR[1] sy'n mynd gyda Gorchymyn 2017 hefyd yn adlewyrchu'r ffaith i'r ECAau gael eu heithrio.  Roedd yr ymgynghoriad ar[2] gynllun SBRR yn cyfeirio'n benodol at eithrio ATMau o fod yn gymwys am y rhyddhad.

4. Ym mis Ionawr 2018, daeth asiant ardrethu oedd yn gweithredu ar ran talwr ardrethi ATM, Cardtronics UK Ltd, â her gyfreithiol yn erbyn Cyngor Sir Penfro am beidio â dyfarnu SBRR ar gyfer eu safleoedd ATM yn y sir.[3]  Penderfynodd y llys o blaid Cardtronics UK Ltd oherwydd nad yw ATMau yn ECA.  Felly, ble yn berthnasol, byddai ATMau sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol bellach yn gymwys ar gyfer SBRR.

5. Nid y bwriad oedd i'r SBRR gefnogi ATMau ar y sail nad ydynt yn cael eu gweld fel busnesau bach.  Oherwydd hynny, cafodd y Gorchymyn Ardrethi Annomestig drafft (Rhyddhad Busnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2019 (y Gorchymyn Drafft) ei baratoi i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol.  Effaith y diwygiadau yw sicrhau nad yw eiddo annomestig sy'n cael eu defnyddio ar gyfer ATMau yn unig yn elwa o SBRR.

6. Ceisiodd yr ymgynghoriad gasglu barn am agweddau technegol y Gorchymyn Drafft ac ymarferoldeb ei weinyddu.  Nid oedd yn fwriad gan yr ymgynghoriad i gasglu safbwyntiau pobl ar y polisi ynghylch trin ATMau o ran yr SBRR gan bod hyn wedi'i wneud mewn ymgynghoriadau blaenorol.

---

[1]Cynllun Rhyddhad Ardrethi Parhaol Busnesau Bach yng Nghymru 2019. https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/SBRR%20-%20%202019-%2019Guidance%20%20%28ENG%29%20-%2009Update%2019-20%20FINAL%20DESIGN%29_29.pdf
[2]Gostwng trethi busnesau bach. Cynllun rhyddhad ardrethi newydd ar gyfer busnesau bach yng Nghymru. 13 Rhagfyr 2017. https://gov.wales/delivering-tax-cut-small-businesses-new-small-business-rates-relief-scheme-wales
[3] *Cardtronics UK Limited v Cyngor Sirol Sir Penfro* [2018] EWHC 1167.

## Ymgysylltu

7. Cafwyd barn pobl fel rhan o gyfnod ymgynghori o chwe wythnos ddechreuodd ar 18 Medi 2019 ac a ddaeth i ben ar 30 Hydref 2019. Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar y tudalennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

## Trosolwg o Ymatebion

8. Cafwyd cyfanswm o naw ymateb i'r ymgynghoriad. O'r naw ymateb, roedd pump gan awdurdodau lleol yn ogystal ag ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd dau ymateb gan gyrff proffesiynol, ac un ymateb gan unigolyn. Mae rhestr o ymatebwyr i'w gael yn Atodiad A.

## Crynodeb o Ymatebion

9. Bwriad y ddogfen hon yw bod yn grynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio dal pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr ond tynnu sylw at y prif themâu.

| **Cwestiwn 1** | **A oes unrhyw broblemau ynghylch gweinyddu a gorfodi y Gorchymyn Drafft?** |
|---|---|

### Casgliad o Ymatebion

10. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi eglurder y Gorchymyn Drafft bod Peiriannau Rhifo Awtomatig (ATMau) yn eiddo annomestig wedi'u heithrio ac nad ydynt yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (SBRR) o'r 1 Ebrill 2020.

11. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r Gorchymyn Drafft erbyn diwedd Ionawr 2020, i roi digon o amser i awdurdodau lleol dynnu unrhyw ddyfarniadau SBRR o filiau ar ddiwedd blwyddyn. Roedd pryderon ynghylch ystyr 'awtomatig' a 'hunan-wasanaeth', gyda datblygiadau technolegol posibl yn creu problemau o bosib yn y dyfodol.

| **Cwestiwn 2** | **A oes gennych unrhyw arall sylwadau eraill am y Gorchymyn Drafft hwn?** |
|---|---|

### Casgliad yr Ymatebion

12. Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar bolisi yn hytrach nag agweddau technegol y ddeddfwriaeth.

13. Ni chafwyd unrhyw sylwadau eraill gan dri ymatebydd.  Roedd barn gymysg gan yr awdurdodau lleol, rhai yn croesawu yr eglurder a gafwyd ac eraill yn cynnig sylwadau ar yr effaith bosibl ar gymunedau gwledig.  Roedd un awdurdod yn awgrymu y gellid cyflwyno dosbarth newydd o Ryddhad yn ôl Disgresiwn gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu ATMau sy'n cynnig gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

14. Awgrymwyd hefyd y gallai preswylwyr wynebu colli mynediad at wasanaethau ariannol gan orfodi pobl i yrru er mwyn dod o hyd i arian parod.  Roedd dau ymatebydd yn cyfeirio at ganfyddiadau[4] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ei ymchwiliad i 'Mynediad at Fancio' yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda darparwyr a rheoleiddwyr i gryfhau a chefnogi'r rhwydwaith ATM di-dâl.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 3** | **Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai y Gorchymyn Drafft yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**<br><br>**Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau?  Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?** |

**Casgliad yr Ymatebion**

15. Roedd yr ymatebion yn nodi nad oedd effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg o ganlyniad i'r Gorchymyn Drafft.  Ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion am gynyddu'r effeithiau positif ar yr Iaith Gymraeg.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 4** | **Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gallai'r Gorchymyn Drafft gael ei greu neu ei newid i gael effaith bositif, neu fwy o effaith bositif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** |

**Casgliad yr Ymatebion**

16. Roedd yr ymatebion yn dangos y bydd y Gorchymyn Drafft yn cael yr un effaith ar y ddwy iaith.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 5** | **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:** |

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau. Mynediad at Fancio. Hydref 2019. http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld12818/gen-ld12818-e.pdf

### Casgliad yr Ymatebion

17. Cafwyd dau ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd un yn codi pryderon ynghylch mynediad at arian mewn ardaloedd gwledig yr effeithiwyd arnynt oherwydd bod banc wedi cau. Roedd y llall yn tynnu sylw at yr angen i roi cefnogaeth i gyfleusterau cyhoeddus yn ogystal ag ATMau i gynnal y bywyd gwledig.

### Unrhyw sylwadau eraill

18. Roedd ymatebion ysgrifenedig nad oedd yn dilyn fformat y cwestiynau yn codi pwyntiau tebyg i'r rhai a godwyd yng Nghwestiwn 2 a Cwestiwn 5. Mae eu hymatebion wedi eu cynnwys yn y casgliadau ar gyfer y cwestiynau eraill.

## Y Camau Nesaf

19. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cwblhau a gweithredu'r Gorchymyn mewn pryd ar gyfer newidiadau sydd i ddigwydd o'r 1 Ebrill 2020.

## Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan:

Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Gwynedd
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV)
Cymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS)
David Robinson